

Gwerthuso a nodi'n feirniadol y camau dysgu ac addysgu nesaf gan ganolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, ar sail achos beirniadol a arsylwyd

Fe fydd y traethawd yma'n gwerthuso achos beirniadol arsylwais o fewn ystafell ddosbarth. Yn ôl Tripp mae achos beirniadol yn cael ei chreu (Tripp, 1993, tud.8). Maent yn troi mewn i achos critigol trwy "the way we look at a situation...an interpretation of the significance of an event" (Tripp, 1993, tud.8). Ffocysau'r traethawd ar achos beirniadol ar sail unigolyn a wnaeth lwyddo ar ôl i'r addysgwr gwahaniaethu ar hap. Mae methodoleg yn rhan bwysig wrth fynd ati i arsylwi enwedig pa ddull ydy'r un orau. Fe fyddai'n adlewyrchu'r manteision a rhwystrau wrth ddefnyddio astudiaeth achos a pam nad oeddwn wedi defnyddio dulliau methodoleg arall. Wrth i mi drafod a disgrifio'r achos beirniadol o dan sylw fe fyddai'n cysylltu'r achos gyda pedwar diben Donaldson.

Adlewyrchir yr achos beirniadol gwir bwysigrwydd ac angen gwahaniaethu yn ogystal â'r defnydd o ganmoliaeth i'r unigolyn o dan sylw. Dyma'r testunau a fydd yn cael ei ffocysu yn yr adolygiad llenyddiaeth. Cynhwysir yr adolygiad yma pwysigrwydd gwahaniaethu gwaith a chanmoliaeth, pam mae angen ei wneud, beth mae'r dysgwr yn ei elwa wrth dderbyn ac os oes unrhyw rhwystrau. Yn olaf fe fyddai'n adfyfrio ar yr achos beirniadol ac yn ystyried y camau nesaf i'r addysgwr a'r dysgwr o ganlyniad i'r achos. Trafodai fy mhrofiad personol o adfyfrio'r achos beirniadol, yn ogystal a sut mae adfyfrio yn rhan o fy mywyd yn bresennol ac yn y dyfodol fel rhan o fy natblygiad proffesiynol. Gorffennwyd y traethawd gyda chasgliad a fydd yn crynhoi'r hyn a nodwyd ac sydd wedi ei adlewyrchu yn y traethawd.

Arsylwais yn ysgol Gymraeg, ysgol a gynhelir yn Ne Cymru. Yn 2018 roedd 293 o ddisgyblion (Fy Ysgol Leol, 2018) rhwng yr oeddrannau 3-11. Mae 11 dosbarth gyda 5 o rain yn ddosbarthiadau cymysg (Estyn, 2016). Mae'r ysgol yn un arloesol o ran y cwricwlwm newydd ac maent yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i gyflawni hyn (Estyn, 2016). Adnabyddwyr yr ysgol bod 16% o'i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol, ac ychydig iawn o'r canran yma sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (Estyn, 2016). Mae'r canran yma yn "sylweddol is na'r canran cenedlaethol (25%)" (Estyn, 2016). Mae 11.5% o blant yn derbyn prydau ysgol am ddim (Fy Ysgol Leol, 2018)

sy'n llai na chyfartaledd cenedlaethol o 19% (Estyn, 2016). Mae'r ysgol wedi ei chategoreiddio'n wyrdd gyda chapasiti wella o A (Fy Ysgol Leol, 2018).

Arsylwais o fewn dosbarth o 30 disgybl yn Flwyddyn 2 gydag un athrawes ac un cynorthwydd cymorth dysgu. Datganodd yr athrawes i mi fod 2 disgybl gydag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y dosbarth. Mae un disgybl gydag ymholiad anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd, yn bresennol mae'n rhy ifanc i dderbyn diagnosis. Mae'r disgybl arall yn driban ac maent yn dangos arwyddion o oedi datblygiad cyffredinol. Wrth i mi arsylwi o fewn y dosbarth roedd dau achos beirniadol yn seiliedig ar yr unigolion yma, a phwysigrwydd gwahaniaethu gwaith iddynt. O ran plant o dan ofal yr awdurdod mae un disgybl o fewn y dosbarth yma. Fel ysgol dim ond ychydig iawn o blant sydd o dan ofal (Estyn, 2016).

Disgrifir Smith a Wood Methodoleg i fod yn fframwaith sy'n ein helpu ac yn cynorthwyo ni i "make sense of research questions in a practical sense" (Smith and Wood, 2016, tud.64). Datganwyd Wilson wrth ddewis dull methodoleg o fewn ymchwil seiliedig ar ysgol fe fydd y dull yn ddibynnol ar ba adnoddau a faint o amser sydd ar gael i'r ymchwilydd (Wilson, 2013, tud.85).

Astudiaeth achos ydy'r dull methodoleg defnyddiais wrth arsylwi gan fod yr ymchwil yn un "small-scale, short-term, classroom-based project" (Wilson, 2013, tud.85). O safbwynt Punch mae diffinio achos o ran astudiaeth achos yn heriol gan fod "almost anything can serve as a case, and the case may be simple or complex" (Punch, 2009, tud.119). Er hyn disgrifiwyd Cohen, Manion a Morrison astudiaeth achos fel esiampï unigryw o "real people in real situations...to understand how ideas and abstract principles can fit together" (Cohen, Manion and Morrison, 2007, tud.253). Trwy ddefnyddio astudiaeth achos mae'r ymchwilydd yn derbyn profiad dilys ac uniongyrchol. Mae'r ddefnydd o astudiaeth achos yn gyffredin o fewn y byd addysg gan ei fod yn caniatáu "understanding how and why something happened, developed or came to be in a particular setting" (Smith and Wood, 2016, tud.72).

Mae cyfweiliadau ac arolwg yn ddulliau arall o Fethodoleg, serch hyn nid oeddent yn berthnasol nac yn ddibynadwy o ran arsylwi achos beirniadol. Nid ydy cyfweiliad yn rhoi profiad uniongyrchol i achos beirniadol. Mae Bell a Waters yn adlewyrchu'r rhwystrau i gyfweiliadau, meddai nhw ei bod yn cymryd llawer o amser ac mae perygl o ragfarn (Bell and Waters, 2018, tud. 210).

Wrth i mi arsylwi roeddwn i'n arsylwr cyfrannog sy'n cynnwys gwrando, cwestiynu ac arsylwi (Bell a Waters, 2018, tud.244). Yn ôl Tripp mae achosion beirniadol yn cael ei chreu trwy sut mae'r unigolyn yn edrych ac yn gwerthuso'r sefyllfa (Tripp, 2012, tud.8). Yn ogystal â hyn mae achosion beirniadol yn "interpretation of the significance of the event" (Tripp, 2012,

tud.8). Yn debyg i Tripp credai Bell a Waters, nid oes angen i achos beirniadol fod yn un ddramatig i gael ei ystyried yn deilwng (Bell a Waters, 2018, tud.229). Adlewyrchir Joshi bod yr achosion beirniadol yma'n bersonol ac yn unigryw i'r addysgwr (Joshi, 2018, tud.82).

Awgrymmwyd Punch un o rwystrau a beirniadaeth gyffredin astudiaeth achos yw ei bod yn euog o'r gallu i gyffredinoli (Punch, 2009, tud.121). Mae Smith a Wood yn cytuno gyda'r rhwystr yma gan Punch, meddai nhw bod astudiaeth achos yn gallu "lead to criticisms that their generalisability is very poor" (Smith and Wood, 2016, tud.76). Serch hyn mae astudiaeth achos yn gallu fod yn addas i ymchwilydd unigol mewn unrhyw faes gan ei fod yn galluogi'r ymchwilydd i astudio un agwedd mewn dyfnder (Bell and Waters, 2018, tud.30-31). Mae Cohen, Manion a Morrison yn mynegi bod cryfder o ddefnyddio astudiaeth achos yn caniatáu'r ymchwilydd bod yn "integrally involved in the case" (Cohen, Manion and Morrison, 2007, tud.253).

Dangosai'r arsylwad a'r achos beirniadol, angenrheidrwydd gwahaniaethu er mwyn i ddisgybl allu cyrraedd ei photensial. Yn ogystal â datblygu sgiliau i fod yn ddysgwr ar sail pedwar diben Donaldson sy'n deillio o'r ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus'. Yn ôl Denby gwahaniaethu ydy creu amrywiaeth o lwybrau a phrofiadau dysgu ar gyfer disgyblion (Denby, 2015). Meddai Denby hefyd dylai "materials and methods...should be adapted to each individual level of learning...and...learning style" (Denby, 2015). Mae gwahaniaethu felly'n bersonol ac yn unigryw i'r disgybl unigol.

Yn ystod yr arsylwad a'r achos beirniadol roedd pum grŵp o blant yn gwneud pum gweithgaredd gwahanol ar sail thema ailgylchu. Roedd y thema yma'n rhan o brosiect yr ysgol sef dathliadau gan ei fod yn wythnos ailgylchu. Yn ystod y wers roedd dau grŵp yn cwblhau tasg ffocws gydag oedolyn a tri grŵp yn gweithio'n annibynnol a'r darpariaeth wedi'i gyfoethogi. Wrth i'r plant gweithio ar y tasgau penodol yma roeddent yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus gan eu bod "yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol" (Donaldson, 2015, tud.30). Roedd un o'r tasgau ffocws yn dasg ysgrifenedig am fanteision ailgylchu sy'n atgyfnerthu bod y disgyblion yn "dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwydd y blaned" (Donaldson, 2015, tud.30).

Yn ystod y dasg ysgrifenedig yma, stopiodd yr athrawes gweithio gyda'i grŵp, sefyll a symud (gweler arsylwad 3 yn yr atodiadau). Sylweddolodd hi fod disgybl X ddim ar ei dasg benodol sef creu poster ailgylchu yn ei lyfr. Roedd yr unigolyn dan sylw yn hapus ac yn brysur yn torri allan darnau o bapur a defnyddio tap selo i greu delwedd. Roedd yn amlwg bod disgybl X yn gyfrannwr mentrus creadigol. Dyma sut oedd disgybl X yn dysgu orau trwy "cysylltu ag yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion (Donaldson, 2015, tud.29). Adnabyddwyr yr athrawes hon ac felly gwahaniaethodd y dasg er mwyn i'r bachgen

gallu ac eisiau ei gyflawni (gweler arsylwad 3 yn atodidau). Yn ôl egwyddor addysgeg pump sy'n deillio o ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' mae'r gallu gyda'r athrawes "dewis dulliau addysgu a dysgu...sy'n cwrdd ag anghenion eu plant" (Donaldson, 2015, tud.67).

Os nad oedd y dasg wedi ei gwahaniaethu er mwyn i ddisgybl X eisiau ei gwblhau fe fyddai wedi colli allan i ddatblygu'n dinasyddydd egwyddorol gwybodus. Rhoddodd yr athrawes dewis iddo wneud y dasg ar ei delwedd yn hytrach na yn ei lyfr. (Gweler arsylwad tri yn yr atodiadau am fwy o fanylion). Ar ôl hyn roedd disgybl X yn hapus ac aeth i gyflawni'r dasg yn annibynnol. Yn ystod yr achos yma defnyddiodd disgybl X ei feddwl i fod "yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau" (Donaldson, 2015, tud.29). Ar ôl i'r athrawes cynnig datrysiad o sut gall disgybl X cwblhau'r dasg, fe wnaeth disgybl X ddefnyddio sgiliau datrys problem ei hun i allu cyflawni ei waith. Penderfynodd yr unigolyn yn annibynnol i gyflawni'r dasg yn lle gorffen creu ei delwedd o bapur a thap selo gan fod y dasg wedi ei wahaniaethu iddo. Yn ogystal â disgybl X fod yn gyfrannwr mentrus creadigol adlewyrchodd yr achos yma bod disgybl X yn unigolyn iach a hyderus hefyd. Sylweddolodd disgybl X sut oedd orau iddo gwblhau'r dasg ac felly roedd ganddo'r "sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant" (Donaldson, 2015, tud.30).

Adlewyrchwyd yr achos beirniadol pwysigrwydd a'r angen o wahaniaethu gwaith er mwyn i'r unigolyn eisiau a gallu cwblhau'r dasg yn annibynnol. Ac felly bydd gwahaniaethu yn destun a fydd yn cael ei thrafod yn rhan gyntaf yr adolygiad llenyddiaeth. Fel y cyfeiriwyd eisoes gwahaniaethu ydy creu a defnyddio amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau er mwyn i ddisgyblion derbyn profiad dysgu unigryw iddyn nhw (Denby, 2015).

Yn ôl Morgan gwahaniaethu ydy'r ffordd o "recognizing and teaching according to different student talents and learning styles" (Morgan, 2014, tud.34). Er mwyn gwahaniaethu'n effeithiol mae angen i'r addysgwr adnabod bod pob disgybl yn wahanol. Maent yn dod a sgiliau, gwybodaeth, profiadau ac agwedd gwahanol i'r dosbarth a'r ysgol (Titchmarsh yn Capel et al, 2013, tud.205). Mae gwahaniaethu felly'n ddull sydd yn personoli'r dysgu.

Yn debyg pwysleisir Stefanakis yr angen am addysgwyr sy'n adnabod ei disgyblion yn dda, ac yn ymwybodol o allu pob unigolyn gyda ffocws ar ei chryfderau (Stefanakis, 2011, tud.1). Dywedir Stefanakis bod addysg yn yr ugeinfed ganrif ar hugain yn gofyn am ddosbarthiadau sydd wedi ei phersonoli "how we assess and teach *all* learners" (Stefanakis, 2011, tud.1). Mae Stefanakis wedi italeiddio'r gair '*all*' fan hyn, sy'n adlewyrchu bod gwahaniaethu yn berthnasol i bob dysgwr ac nid dim ond y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Er bod llyfr Stefanakis 'Differentiated Assessment How to Assess the Learning Potential of Every Student' wedi ei seilio ar ysgolion yn Unol Daleithiau America mae'n ddefnyddiol o ran cynnig atebion i pam oes angen gwahaniaethu o fewn y dosbarth.

Yn debyg awgrymma Titchmarsh bod rhaid i addysgwyr bod yn barod i asesu beth ydy cymhelliad, diddordebau personol a gallu pob unigolyn (Titchmarsh yn Capel et al, 2013, tud.205). Pan mae'r addysgwr wedi gwneud hyn fe fyddent a'r gallu i "design learning that challenges and interests pupils... ensures for each a large measure of success" (Titchmarsh yn Capel et al, 2013, tud.205). Yn debyg credai Sprenger bod gwahaniaethu yn caniatáu disgyblion i arwain dysgu ei hun trwy ddefnyddio ei diddordebau a chryfderau (Sprenger, 2008, tud.2).

Adlewyrchir egwyddor addysgeg pump o'r ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' y rhaid i ennyn diddordeb er mwyn creu a chynnal addysgu a dysgu da (Donaldson, 2015, tud.67). Datganwyd yr egwyddor bod disgyblion yn dysgu yn ffordd eu hun gan fod diddordebau, cryfderau a phrofiadau gwahanol ganddynt (Donaldson, 2015, tud.67). Oherwydd hyn "ni fydd ymagwedd at ddysgu sy'n cynnig yr un dull ar gyfer pawb" (Donaldson, 2015, tud.67) yn medru cwrdd ag anghenion amrywiol pob unigolyn. Fel meddai Donaldson er mwyn creu addysgu a dysgu da mae gwahaniaethu yn angenrheidiol er mwyn i'r dysgwyr lwyddo a chyrhaedd ei photensial. Yn ogystal â datblygu'n dysgwr sy'n dangos priodweddau'r pedwar diben.

Mae'n amlwg felly bod lles ac anghenion y dysgwyr yn angenrheidiol er mwyn iddynt ddysgu'n orau ac yn effeithiol. Nid yw'n syndod felly ei bod yn hawl cyfreithlon. Mae Erthygl 29 o 'plant yng Nghymru' yn datganu bod pob plentyn gyda'r hawl "i fod y gorau y gallwch fod" (Hawliauplant.cymru, 2015). Wrth addysgu mae rhaid adnabod a rhoi anghenion yr unigolyn yn gyntaf, a sicrhau bod ganddynt fynediad i'r dysgu mewn ffordd y maent yn dysgu orau.

Yn ddogfen 'Improving Schools in Wales a OECD perspective' mae'r OECD yn datgan bod gan y system addysg yr angen i fod yn abl. Yn abl i "respond to diverse student learning needs in schools with differentiated learning approaches" (OECD, 2014). Yn ogystal â hyn mae amgylcheddau dysgu effeithiol yn gofyn i'r addysgwyr i fod yn "sensitive to the individual differences between students" (OECD, 2014). Mae gwahaniaethu felly'n angenrheidiol er mwyn i'r disgyblion derbyn addysgu a dysgu effeithiol.

Er hyn nid yw gwahaniaethu'n dasg hawdd, mynegwyd Titchmarsh hyn gan ddweud bod gwahaniaethu yn "demanding task and is about raising standards of all pupils in a school" (Titchmarsh yn Capel, 2013, tud.206). Fodd bynnag mae Sprenger o'r farn bod gwahaniaethu yn gwneud y dysgu'n fwy hawdd (Sprenger, 2008, tud.3). Atgyfnerthwyd Sprenger hefyd bod gwahaniaethu yn ddull addysgu lle mae'r dysgwyr yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol (Sprenger, 2008, tud.3). Fe welais hyn wrth i mi arsylwi'r achos beirniadol, fe wnaeth yr unigolyn o dan sylw cwblhau ei waith mewn ffyrdd gwahanol i'r dysgwyr eraill.

Wrth drafod gyda'r athrawes ar ôl yr achos roedd yn amlwg doedd dim problem ganddi sut aeth yr unigolyn i gyflawni'r dasg. Y peth pwysicaf oedd bod yr unigolyn wedi cwblhau'r dasg mewn ffordd oedd yn orau gydag ef.

Yn ôl Titchmarsh ni fydd gwahaniaethu'n llwyddiant heb i'r addysgwr gwybod ei disgyblion a chael ymwybyddiaeth a mynediad i nifer o strategaethau addysgu (Titchmarsh yn Capel et al, 2013, tud.206). Yn Nhachwedd 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen sy'n cynnwys pwysigrwydd a manteision gwahaniaethu trwy adnabod eich disgyblion, er mwyn iddynt dderbyn addysg hafal. Wrth adnabod eich dysgwyr a defnyddio arferion sy'n canolbwyntio arnynt (Llyw.cymru, 2015) fe fydd disgyblion yn dysgu'n fwy effeithiol. Fe fydd y dysgu effeithiol yma'n seiliedig ar "cryfderau a'u diddordebau unigol" (Llyw.cymru, 2015).

Mae gwahaniaethu felly'n sylfaenol o fewn dosbarth er mwyn i bob disgybl allu dysgu'n effeithiol a datblygu sgiliau holl bwysig. Meddai Titchmarsh bod gwahaniaethu'n dechrau gyda golygfa glir o beth mae'r addysgwr eisiau i'r dysgwyr lwyddo a beth sydd angen ar ddysgwyr unigol fel nod dysgu (Titchmarsh yn Capel, 2013, tud.207). Er nad yw'r dasg yn hawdd fel mynegai Titchmarsh, mae'n angenrheidiol er mwyn i bob unigolyn derbyn y cyfle i gyrraedd ei photensial.

Yn ogystal a gwahaniaethu dangosodd yr achos beirniadol y ddefnydd o ganmoliaeth positif. Defnyddiodd yr athrawes y ganmoliaeth yma cyn, yn ystod ac ar ôl gorffennodd yr unigolyn y dasg priodol (gwelir arsylwad 3 yn yr atodiadau). Diffiniwyd canmoliaeth gan Merrell, Palmer a Reinke i fod "any verbal statement or gesture that indicated teacher approval of a desired student behaviour" (Merrell, Palmer a Reinke, 2008, tud.319).

Cysylltiwyd Floress et al canmoliaeth gyda ymddygiad. Meddai nhw fod canmoliaeth yn strategaeth effeithiol a gwerthfawr sy'n lleihau ymddygiad heriol y dysgwyr (Floress et al, 2017, tud.228). Yn ogystal â'r gallu i wella "student disruptive and off-task behaviour" (Flores et al, 2017, tud.227). Mae canmoliaeth felly'n cynorthwyo strategaethau ymddygiad yn ôl Floress et al.

Yn debyg cysylltai'r seicolegydd Burrhus Skinner y berthynas rhwng canmoliaeth ac ymddygiad hefyd. Mae Skinner yn seicolegydd enwog iawn yn y maes cyflyru gweithredol a hefyd y maes ymddygiadol (Pritchard, 2008, tud.7). Ymchwiliwyd ac astudiodd ymddygiad llygod mawr (Pritchard, 2008, tud.7). Trwy'r ymchwil yma fe wnaeth ddod i'r farn bod "rewards and punishments control the majority of human behaviours" (Pritchard, 2008, tud.8). Yn ôl Skinner mae'r broses o ddysgu yn ymwneud a dau beth sef "positive reinforcement strengthens behaviour" (Gray a MacBlain, 2015, tud.56). Ac mae "negative reinforcers can discourage certain behaviours" (Gray a MacBlain, 2015, tud.56). Felly mae'r

defnydd o ganmolïaeth bositif yn ôl Skinner yn arwain at ganlyniadau positif ymhlith ymddygiad.

Yn wahanol i Skinner a Floress et al meddai Hattie bod canmolïaeth yn cael ei ddefnyddio er mwyn cefnogi a chysuro disgyblion (Hattie, 2012, tud.121). Datganwyd Hattie bod y defnydd o ganmolïaeth “is ever present in many classrooms, and is welcomed and expected by students” (Hattie, 2012, tud.121). Mae disgyblion yn gweld canmolïaeth yn rhan bwysig o lwyddiant ac mae’n berthnasol i ganlyniad dysgu (Hattie, 2012, tud.121). Er hyn awgryma Hattie dylai canmolïaeth ac adborth am y dysgu cael ei gadw ar wahân, gan fod canmolïaeth yn aml yn cyfeirio sylw’r dysgwr oddi ar y dasg (Hattie, 2012, tud.121). Adlewyrcha Hattie yma, er mwyn addysgu a dysgu’n effeithiol dylai’r addysgwr “provide praise, but not... in such a way that it dilutes the power of feedback” (Hattie, 2012, tud.121). Er mwyn i’r addysgwr gwneud gwahaniaeth mawr yn ei dysgu dylai canmolïaeth cael ei adael allan o adborth (Hattie, 2012, tud.121).

Cysylltwyd yr hyn a ddywedai Hattie am ganmolïaeth gyda gwaith Carol Dweck. Yn ôl Dweck mae canmolïaeth yn gallu cael ei rhoi trwy ddefnyddio termau person (person praise) neu dermau proses (process praise) (Douglas a Skipper, 2012, tud.327). Mae canmolïaeth person yn rhoi adborth ynglŷn â’r ““whole-person”, appreciating work only as a reflection of ability” (Bizo a Chalk, 2004, tud.336). Yn wahanol mae canmolïaeth proses yn llawer fwy specifig ac yn ffocysu ar yr ymdrech a sut wnaeth y disgybl cyflawni ei lwyddiant (Bizo a Chalk, 2004, tud.336). Fel dywedai Hattie dylai’r ddau wahanol fath o ganmolïaeth yma cael ei wahanu er mwyn i’r dysgwyr llwyddo a gwella.

Dylai canmolïaeth yn nhermau proses cael ei rhoi yn fwy aml i gymharu â mewn termau person. Y rheswm am hyn ydy bod canmoli’r “effort, the strategizing, the work, and the persistence children put in to their accomplishments may allow for fuller recognition of their achievements” (Dweck a Kamins, 1999, tud.846). Fe wnaeth Dweck a Kamins dwy astudiaeth ynglŷn â’r defnydd o ganmolïaeth person a chanmolïaeth proses. Darganfyddo’n nhw bod y ganmolïaeth yn nhermau person wedi achosi’r dysgwyr i deimlo’n “less good, less nice, and less smart” ar ôl iddynt wneud gwall (Dweck a Kamins, 1999, tud.844). Yn ddiddorol dangosodd yr ymchwiliad bod y defnydd o ganmolïaeth yn nhermau person yn gallu “hinder the very strivings it was intended to encourage” (Dweck a Kamins, 1999, tud.846).

Fe wnaeth yr achos beirniadol dangos effaith y ganmolïaeth ar yr unigolyn o dan sylw. Ar ôl iddo orffen y dasg dangosodd ei waith i’r athrawes. Fel awgrymwyd Douglas a Skipper ymatebodd yr athrawes gan ddefnyddio termau person wrth ganmoli. Roedd yn amlwg bod y ganmolïaeth yma wedi cael effaith ar yr unigolyn gan ei fod yn edrych yn hapus ac yn falch o’i waith. Er hyn mae’n werth nodi bod Dweck a Kamins yn datganu bod canmoli ddisgybl yn

nhermau person yn lle proses ar ôl iddynt lwyddo yn arwain at “helpless responses to subsequent failures” (Douglas a Skipper, 2012, tud.328). Efallai bydd y defnydd o ganmolïaeth yn nhermau proses yn y dyfodol yn medru helpu'r unigolyn deall sut mae'r gwaith wedi cael ei chyflawni. A hefyd pa sgiliau oedd angen iddo wneud hyn er mwyn datblygu'n dysgwr ar sail pedwar diben Donaldson.

Ac felly mae canmolïaeth yn strategaeth sy'n gallu cynorthwyo ymddygiad, enwedig ymddygiad positif os ydy'r ganmolïaeth yn adlewyrchu hyn. Mae'r defnydd o ganmolïaeth yn nhermau proses yn galluogi'r dysgwr adnabod sut maen nhw wedi gwneud yn dda. Fe fydd yr adnabyddiaeth hon yn cymorth i'r dysgwyr er mwyn iddynt dyfu i fod yn ddysgwyr annibynnol, fel adlewyrchir yn y pedwar diben y Cwricwlwm 2022.

Meddai Hargreaves a Page bod myfyrdod yn cael ei hyrwyddo er mwyn ddatblygu'n effeithiol yn broffesiynol (Hargreaves a Page, 2013, tud.1). Mae adfyfrio'n gritigol yn rhywbeth personol ac yn unigryw i bawb. Meddai Bassot myfyrio ydy “applying theory to professional practice” (Bassot, 2016, tud.2). Mae myfyrio'n gritigol yn elfen holl bwysig a hanfodol o fewn arfer proffesiynol, gan ei fod yn galluogi lle am feddwl yn ddwfn a'r gallu i werthuso a datblygu arfer (Bassot, 2016, tud.2). Credai Ghaye bod myfyrdod yn galluogi dealltwriaeth a mewnwleidiad newydd sydd yn helpu ni i wella gweithredoedd (Ghaye, 2011, tud.1). Ac felly fel meddai'r awduron o dan sylw mae myfyrdod yn bwysig iawn ac yn rhan o ddatblygiad proffesiynol.

Wrth i mi arsylwi roedd rhaid i mi fyfrio ar yr achos beirniadol trwy ddefnyddio model myfyrio BWA. Teimlaf wrth ddefnyddio'r model yma mae fy sgiliau o adfyfrio'n gritigol wedi datblygu a gwella. Wrth gofnodi trwy ddefnyddio'r model BWA roedd rhaid i mi ffocysu ar fy nheimpladau. Fe wnaeth yr elfen yma synnu mi wrth adfyfrio gan ei fod mor bersonol ac yn eithaf sensitif. Adlewyrchwyd y model BWA beth wnes i gofio a deall o'r achos beirniadol ynghyd a gwerthuso, dadansoddi a hefyd dod i gasgliadau a meddwl am gamau gweithredu.

Yn bersonol y traethawd hwn yw'r cam cyntaf i fi fel myfyrwraig ar fy nhaith o adfyfrio'n gritigol. Mae'r proffesiwn o addysgu yn adfyfrio'n gritigol pob dydd, weithiau nifer o weithiau. Wrth i mi fynd ati i addysgu fe fydd rhaid i mi gadw cofnod o fy nheimpladau trwy adfyfrio'n gritigol ar waith a gweithredoedd fy hun. Dyma sut fe fyddai'n dysgu a thyfu fel athrawes, trwy fyfrio fe fyddai'n gallu gweld beth aeth yn dda a beth, sut a pam mae angen gwella. Er mwyn fod yn athrawes lwyddiannus mae rhaid myfyrio'n gyson er mwyn creu addysgu a dysgu effeithiol a bod yn barod i addasu a newid ar hap.

Fe wnaeth yr achos beirniadol rhoi'r cyfle i mi fyfrio. Trwy adfyfrio'n gritigol fe wnes i feddwl am beth gall camau nesaf y dysgu ac addysgu fod. Mae hi'n bwysig nodi dim ond awgrymiadau rydw i am drafod ac nid barnu beth wnes i arsylwi.

Teimlaf bydd disgybl X o dan sylw'r achos beirniadol yn buddio o gwblhau proffil un tudalen. Fe fydd y defnydd o'r tudalen yma o fudd i'r addysgwr hefyd. Mae proffil un tudalen yn ffordd o gasglu gwybodaeth bwysig am unigolyn mewn ffordd effeithiol a grymus (Llyw.cymru, 2015). Cynnhwysir proffil un tudalen "gymeriad, doniau a thalentau unigolion; beth sy'n bwysig iddynt; a'r ffordd orau i'w cefnogi" (Llyw.cymru, 2015). Ac felly mae'r proffil yn ffordd hynod o dda a bwysig er mwyn dod i wybod disgyblion a beth sydd angen arnynt i lwyddo. Yn amlwg wrth arsylwi'r achos beirniadol roedd disgybl X yn edrych fel petai'n mwynhau pethau creadigol. Fe fydd proffil un tudalen yn galluogi'r addysgwr i adnabod hyn a chynllunio gwaith a fydd yn hybu'r creadigrwydd hyn pan yn briodol.

Yn ogystal â bod yn fuddiol i'r addysgwr mae proffil un tudalen yn ddefnyddiol i athrawon cyflenwi a phobl broffesiynol arall megis staff gweithgareddau cymdeithasol mae'r unigolyn yn mynychu (Guillen, 2019). Meddai Llywodraeth Cymru yn ogystal â disgyblion dylai staff ac addysgwyr cwblhau proffil un tudalen hefyd. Trwy gwblhau'r proffil fe fyddent yn deall ei phwysigrwydd gan ei fod wedi cael profiad o gwblhau un ei hun (Llyw.cymru, 2015).

Yn yr adolygiad llenyddiaeth fe wnes i adlewyrchu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn Nhachwedd 2015. Ffocysau'r ddogfen ar anghenion unigol y disgybl gan awgrymu adnoddau i ddefnyddio er mwyn gwneud hyn. Mae'n amlwg bod addysgu ar sail gwybod a deall eich disgyblion yn arwain at ddysgu mwy effeithiol, gan fod diddordebau a chryfderau'r disgyblion yn cael ei adlewyrchu trwy'r dysgu (Llyw.cymru, 2015).

I gloi trwy fod arsylwr cyfrannog arsylwais achos beirniadol gan ddefnyddio dull astudiaeth achos. Rhannwyd Demetriou pwysigrwydd o ddefnyddio'r dull yma o fewn addysg; "in order to develop critical thinking, skills and knowledge" (Demetriou yn Wilson, 2013, tud.268). Fe wnaeth yr astudiaeth achos caniatáu fi i dystio achos beirniadol o fewn dosbarth a thystio'n uniongyrchol gwir bwysigrwydd gwahaniaethu. Defnyddiais fodel BWA er mwyn adfyfrio ar yr achos beirniadol yma. Fe fydd adfyfrio'n rhan holl bwysig i mi er mwyn allu datblygu'n broffesiynol.

Mae'r 'Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth' yn ddogfen holl bwysig i adfyfrio er mwyn datblygu'n broffesiynol. Mae'r safonau proffesiynol yma'n galluogi "ymarferwyr i fyfrio ar eu harferion... yn erbyn safonau sy'n nodi arferion effeithiol" (Llyw.cymru, 2019). Gwelir gwahaniaethu fel elfen o addysgeg yn y 'Safonau proffesiynol' sy'n nodi dylai addysgwyr "diwallu anghenion yr holl ddysgwyr" (Llyw.cymru, 2019). Cysylltais yr achos beirniadol gyda dibenion Donaldson gan adlewyrchu bod y disgybl o dan sylw yn gyfrannwr mentrus creadigol ac yn dangos nodweddion o unigolyn iach a hyderus.

Adlewyrchwyd yr adolygiad llenyddiaeth yr hyn a thystiais o'r achos beirniadol sef y defnydd o wahaniaethu a chanmoliaeth. Wrth i mi adfyfrio a meddwl am gamau nesaf y dysgu ac

addysgu trafodais y defnydd o broffil un tudalen a chanmoli broses y gwaith yn lle canmoli'r person. Mae'n bwysig nodi awgrymiadau'n unig ydy'r rhain nid ydwyf yn barnu beth ddylai ddigwydd ar sail yr achos beirniadol.

Wrth i mi adfyfrio ar yr achos beirniadol a thrafod y camau nesaf fe wnaeth hyn fy ngalluogi i adfyfrio'n gritigol. Ac felly wrth ddefnyddio astudiaeth achos mae hyn wedi fy caniatáu i arsylwi, adnabod achos beirniadol, adfyfrio a thrafod y camau nesaf. Gellir dadlau dyma ydy dechreuad fy natblygiad proffesiynol a myfyrdod. Fe fydd adfyfrio a gwerthuso'n rhan allweddol er mwyn ddatblygu'n broffesiynol yn bresennol ac yn y dyfodol. Wrth i mi fyfrio ar fy ngwaith yn y dyfodol fe fydd safonau proffesiynol yng Nghymru yn gymorth enfawr i fi allu cyflawni hyn. Mae'r safonau yma'n medru "sicrhau addysgeg effeithiol" (Llyw.cymru, 2018) y nawr ac yn y dyfodol. O ganlyniad i ddefnyddio astudiaeth achos, mae hyn wedi caniatáu mi i fynd ati i arsylwi, tystio achos beirniadol, adfyfrio a meddwl am gamau nesaf y dysgu ac addysgu.

Llyfryddiaeth

Bassot, B. (2016) *The Reflective Practice Guide An interdisciplinary approach to critical reflection*. Oxon: Routledge.

Bell, J. and Waters, S. (2018) *Doing Your Research Project A Guide for First-time Researchers*. 7th ed. London: Open University Press.

Bizo, L. and Chalk, K. (2004). 'Specific Praise Improves On-task Behaviour and Numeracy Enjoyment: A study of year four pupils engaged in the numeracy hour'. *Educational Psychology in Practice*, 20(4), tud.335-351.

Cohen, L., Manion, L. and Morrison, K. (2007) *Research methods in education*. 6th ed. Oxon: Routledge.

Demetriou, H. (2013) 'The Case Study', in Wilson, E. (ed.) *School-based Research A guide for education students*. London: SAGE Publications Ltd.

Denby, N. (2015) *Training to Teach A Guide for Students*. (ed.). London: SAGE Publications Ltd.

Donadlson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. OGL

Douglas, K. and Skipper, Y. (2012). 'Is no praise good praise? Effects of positive feedback on children's and university students' responses to subsequent failures', *British Journal of Educational Psychology*, 82(2), tud.327-339. DOI <https://web-b-ebshost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=22715033-f533-4717-908f-9c09d04ce826%40pdc-v-sessmgr06>.

Estyn. (2016). *Adroddiad*.

<https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/██████████%20en.pdf> (Darllenwyd 5 Hydref 2019)

Floress, M., Beschta, S., Meyer, K. and Reinke, W. (2017). Praise Research Trends and Future Directions: Characteristics and Teacher Training. *Behavioral Disorders*, 43(1), tud.227-243. DOI <https://journals-sagepub-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/pdf/10.1177/0198742917704648>

Fox, A. and Wilson, E. (2013) 'Data Collection', in Wilson, E. (ed.) *School-based Research A guide for education students*. London: SAGE Publications Ltd.

Fyysgolleol.gov.wales. (2019). ██████████. [ar-lein] Ar gael yn: <http://mylocalschool.gov.wales/School/6722259?lang=cy> (Darllenwyd: 8 Hydref 2019).

Ghaye, T. (2011) *Teaching and Learning through Reflective Practice: A Practical Guide for Positive Action*. 2nd ed. Oxon: Routledge.

Gray, C. and MacBlain, S. (2015). *Learning Theories in Childhood*. London: SAGE Publications Ltd.

Guillen, L. (2019). 'Creating a One-Page Profile to Make Life Easier for you and Your Child'. *Behaviour Matters [online]* Available at: <http://www.behaviourmatters.org.uk/creating-a-one-page-profile-to-make-life-easier-for-you-and-your-child/> (Darllenwyd: Hydref 18 2019).

Hattie, J. (2012). *Visible learning for teachers & students*. London: Routledge.

Hawliauplant.cymru. (2015). *Deall eich Hawliau*. [ar-lein] Available at: <http://www.hawliauplant.cymru/index.php/plant-a-phobl-ifanc/hawliau/file> (Darllenwyd: 9 Hydref 2019).

Hargreaves, J. and Page, L. (2013) *Reflective Practice*. Cambridge: Polity Press.

Joshi, K. (2018). 'Critical Incidents for Teachers' Professional Development'. *Journal of NELTA Surkhet* 5, tud.82-88. Available at: [http://file:///C:/Users/Elin/Downloads/Critical%20Incidents_Khem%20Raj%20Joshi%20\(1\).pdf](http://file:///C:/Users/Elin/Downloads/Critical%20Incidents_Khem%20Raj%20Joshi%20(1).pdf) (Darllenwyd: 8 Hydref 2019).

Kamins, M. and Dweck, C. (1999). 'Person versus process praise and criticism: Implications for contingent self-worth and coping'. *Developmental Psychology*, 35(3), tud.835-847. DOI <https://web-a-ebshost.com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=1d613488-83d7-43d7-b08c-8c43d2f702cf%40sessionmgr4008> (Darllenwyd: 8 Hydref 2019).

Llyw.cymru. (2016). *Cynnwys a chynorthwyo disgyblion*. [ar-lein] Available at: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/canllawiau-cynnwys-a-chynorthwyo-disgyblion_0.pdf (Darllenwyd: Hydref 9 2019).

Llyw.cymru. (2015). *Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru*. [ar-lein] Available at: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/ymarfer-sy-n-canolbwyntio-ar-unigolion-mewn-addysg-canllaw-ar-gyfer-blynyddoedd-cynnar-ysgolion-a-cholegau-yng-nghymru.pdf> (Darllenwyd: Hydref 9).

Llyw.cymru. (2018). *Safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ysgolion yng Nghymru*. [ar-lein] Available at: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live->

storage/41/3c/f6/4d/ab7346c39c96a574751e4eb9/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-ymarferwyr-ysgolion-poster.pdf (Darllenwyd: Hydref 27 2019).

Llyw.cymru. (2019). *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth*. [ar-lein] Available at: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/9c/06/b9/58/b1ca47568dafc2dbaea3942b/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf> (Darllenwyd: Hydref 26 2019)

Merrell, K., Palmer-Lewis, T. and Reinke, M.W. (2008). 'The Classroom Check-Up: A Classwide Teacher Consultation Model for Increasing Praise and Decreasing Disruptive Behavior', *School Psychology Review*, 37 (2), tud.315-322. DOI <https://web-b-ebSCOhost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=2e6cbc2d-d5ef-4b90-b53b-7bc778cc814f%40pdc-v-sessmgr02>

Morgan, H. (2014). 'Maximizing Student Success with Differentiated Learning'. *The Clearing House: A Journal of Educational Strategies, Issues and Ideas*, [ar-lein] 87(1), tud.34-38. Available at: <https://web-a-ebSCOhost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=de870bb0-c679-487b-9ab9-8741afc5e699%40sessionmgr4007> (Darllenwyd: Hydref 12 2019).

OECD (2014). *Improving Schools in Wales An OEcd perspective*. [ar-lein] OECD. Available at: <http://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf> (Darllenwyd: 11 Hydref. 2019).

Pritchard, A. (2008) *Ways of Learning*. Oxon: Routledge

Punch, F.K. (2009) *Introduction to Research Methods in Education*. London: SAGE Publications Ltd.

Smith, J. and Wood, P. (2016) *Educational Research Taking the Plunge*. Carmarthen: Independent Thinking Press.

Sprenger, M. (2008) *Differentiation through learning styles and memory*. 2nd ed. Thousand Oaks, CA: Corwin Press.

Stefanakis, E. (2011) *Differentiated Assessment How to Assess the Learning Potential of Every Student*. San Francisco: Jossey-Bass.

Titchmarsh, A. (2013) 'Pupil Grouping, Progression And Differentiation', in Capel, S. Leask, M. Turner, T. (eds) *Learning to Teach in the Secondary School A Companion To School Experience*. Oxon: Routledge.

Tripp, D. (2012) *Critical Incidents in Teaching Developing Professional Judgement*. London: Routledge

Tripp, D. (1993) *Critical Incidents in Teaching Developing Professional Judgement*. London: Routledge

Wilson, E. (ed.) (2013) 'Research Design', in Wilson, E. (ed.) *School-based Research A guide for education students*. London: SAGE Publications Ltd.

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/9/19

Manylion y wers:
Creu poster ailgylchu fel grŵp.

Diwylliant ar lawr dosbarth

(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

- Roedd y plant yn hapus ar y cyfan, pan maent ar y carped mae rhan fwyaf yn canolbwyntio ac wrth gwblhau tasgau.
- Roedd ambell i blentyn yn siarad neu wedi ei wrthdynnu, deliodd yr athrawes gyda hyn mewn ffordd bositif. Cyfathrebodd gyda'r aelodau hyn yn ddi- air gan ddefnyddio mynegiant wynebol a symudiadau corff penodol.
- Pan oedd y plant ar dasg roedd un unigolyn yn edrych tu allan i'r ffenestr a ddim yn cyflawni'r dasg benodol.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

- Roedd pwrpas y wers yn glir ac yn cyd-fynd gyda thema'r ysgol sef dathliadau.
- Ar ôl i'r dosbarth derbyn stori fe wnaeth amcan y wers cael ei ddatgan. Yr amcan oedd creu poster ailgylchu er mwyn helpu Sbango oedd wedi ysgrifennu llythyr i'r plant am gymorth i dacluso sbwriel.
- Fe wnaeth yr athrawes cwestiynu'r plant gan adeiladu ar eu gwybodaeth a phrofiad blaenorol gan adlewyrchu wrth iddynt gyflawni'r dasg maent yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus. Roedd y cyd-destun yn un dilys oherwydd hyn.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

- Plant oedd yn dewis beth oedd mynd ar y poster a sut i wneud un da.
- Er mwyn i hyn ddigwydd yn effeithiol, roedd yr athrawes yn cwestiynu plant ac yn dewis rhai oedd wedi rhoi llaw i fyny.
- Pan oedd y plant wedi mynd yn ddistaw awgrymodd hi ychydig o syniadau i gynnwys ar y poster.
- Defnyddiodd hi gwestiynau agored a caeedig a rhoddodd digon o amser aros i'r plant meddwl am atebion.

Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

- Roedd bron pawb yn ymwneud ar dasg yn eu grwpiau a nhw oedd yn dewis pwy oedd yn gwneud beth. Roedd y plant yn gweithio'n annibynnol o fewn grŵp yn wych.
- Gwelais un bachgen oedd ddim yn dangos diddordeb, roedd yn edrych tu allan o'r ffenestr yn lle gwneud y dasg.

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

- Wrth esbonio'r dasg roedd yr athrawes yn cwestiynu'r plant, ac yn crwydro wrth iddynt gyflawni'r dasg.
- Wrth iddi grwydro defnyddiodd hi gwestiynau agored a caeedig i'r plant. Roedd y cwestiynau caeedig yn gwneud i'r plant defnyddio ei dealltwriaeth flaenorol o ailgylchu.
- Ar ddiwedd y sesiwn nid oedd y plant wedi gorffen y dasg, dangosodd y plant ei phosteri i'w cyfoedion. Roedd y plant wedyn yn asesu gwaith eu hun trwy ddweud beth oeddent yn hoffi am y poster a sut i wella eu gwaith.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

- Yn ystod y dasg o greu poster ailgylchu fel grŵp nid oedd disgybl yn dangos diddordeb, roedd yn edrych tu allan i'r ffenestr. Roedd gweithio fel grŵp ynn heriol iddo.
- Sylweddolodd yr athrawes hon wrth iddi grwydro'r dosbarth.
- Rhoddodd hi ddewis iddo i wneud poster yn unigol os oedd yn ffeindio gweithio mewn grŵp yn anodd.
- Roedd y bachgen yn edrych ychydig yn hapusach ar ôl i'r syniad hyn cael ei rhoi iddo, fe wnaeth hyn adlewyrchu pwysigrwydd gwahaniaethu gwaith a gweithgareddau er mwyn siwtio anghenion y plentyn.
- Gan ddefnyddio iaith bositif a siarad yn gyfeillgar aeth y bachgen i nôl adnoddau er mwyn creu ei phoster.
- Sicrhodd yr athrawes bod y bachgen yn hapus ble roedd yn eistedd ac yn hyderus ac yn hapus i wneud y dasg.
- Erbyn diwedd y sesiwn roedd y bachgen wedi dechrau ei boster.
- Roedd ymyrraeth yr athrawes yn holl bwysig i'r achos yma, rhoddodd lles y plentyn yn gyntaf trwy adnabod nad oedd e'n gweithio'n effeithiol fel grŵp.

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/9/19

Manylion y wers:

Gorffen poster ailgylchu mewn grwp

Diwylliant ar lawr dosbarth

(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

- Mae'r plant yn hapus ar y cyfan ac yn canolbwyntio ar y carped.
- Yn ystod y gofrestr ar y llawr, taflodd un bachgen tedi. Gofynnodd yr athrawes yn gyfeillgar iddo beidio taflu'r tedi gan ei bod yn cael ofn wrth gael ei daflu.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

- Pwrpas y wers oedd gorffen creu posteri ailgylchu fel grŵp dechreuodd y plant y sesiwn cynt.
- Gofynnodd yr athrawes i'r plant pa fath o ddysgwyr ydyn nhw wrth gyflawni'r dasg.
- Atebodd y plant gan ddweud ei bod nhw'n ddinasyddion egwyddorol gwybodus gan eu bod yn dysgu am sut i edrych ar ôl y byd a pa mor bwysig ydy ailgylchu. Hefyd cynigodd un plentyn ei bod nhw'n gyfranwyr mentrus a creadigol gan ei bod nhw'n creu poster.
- Fe wnaeth y plant mynd nôl i'w grwpiau a thasgau heb drafferth, roeddent yn edrych yn gyffrous i orffen eu gwaith.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

- Gan fod y gweithgaredd yn un sy'n gorffen gwaith blaenorol roedd y plant yn hyderus beth oedd angen ei wneud.
- Cyn i'r plant mynd at ei grwpiau atgoffai'r athrawes beth oedd yn gwneud poster da. Y plant oedd wedi dewis beth ddylai mynd ar y poster yn y sesiwn blaenorol.

Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

- Roedd bron pawb ar dasg ond am un grŵp oedd wedi gorffen. Aeth y grŵp yma ymlaen i weithgaredd ymarferol a oedd didoli deunyddiau ailgylchu i'r bocsys cywir- cardfwrdd, plastig, alwminiwm a phapur.
- Roedd cynllunio'r athrawes yn amlwg yma gan oedd gweithgaredd arall yn barod i herio'r rhai oedd wedi gorffen y dasg.

- Roedd un bachgen ddim yn mwynhau'r gweithgaredd yma ac felly dechreuodd i grwydro o amgylch y dosbarth.

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

- Yn ystod y wers fe grwydrodd yr athrawes o amgylch y dosbarth gan gwestiynu grwpiau ac unigolion. Defnyddiodd hi gwestiwn caeedig "beth mae tacluswch yn dechrau gyda" i un grŵp o ddisgyblion. Rhoddodd hi ddigon o amser iddynt ateb a chanmol nhw ar ôl ateb yn gywir. Defnyddiodd hi gwestiwn agored i un bachgen "beth sy'n mynd ymlaen ar dy boster di?" Rhoddodd hi syniadau iddo er mwyn gwella'r poster hefyd.
- Yn ystod y sesiwn yma roedd yr athrawes yn defnyddio nifer o symudiadau corfforol er mwyn iddi fod ar lefel y plant. Un ystyr o hyn oedd pen-gliniodd hi o flaen plentyn oedd yn ansicr beth i roi ar y poster i orffen e. Defnyddiodd hi gwestiynau megis "beth wyt ti eisiau ysgrifennu" er mwyn hybu gwaith annibynnol y plentyn o fewn y grŵp

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

- Yn ystod y gofrestr ar y llawr, taflodd un bachgen tedi o'r enw Mac.
- Gofynnodd yr athrawes yn gyfeillgar iddo beidio taflu'r tedi gan ei bod yn rhoi ofn iddo.
- Ar ôl hyn fe wnaeth y bachgen mynd yn dawel ac wedi encilio tipyn.
- Gorffennodd y bachgen ei waith ond nid oedd ganddo ddiddordeb gyda'r gweithgaredd estynedig o ddidoli deunydd ailgylchu'r i'r bocsys cywir.
- Sylweddolodd yr athrawes hon a gofynnodd a oedd y bachgen yn gallu edrych ar ôl Mac.
- Aeth y bachgen i'r cornel darllen lle'r oedd tedis arall a threfnu nhw mewn bocs ar ben clustog.
- Ar ôl orffen hyn aeth i ddangos yr athrawes, oedd wedi mynd lawr at ei lefel ar ei phengliniau a chanmol a diolch e am wneud rhywbeth mor garedig i Mac.
- Fe wnaeth y ganmoliaeth yma arwain iddo ddod allan o'i hun ac edrychodd yn hapus unwaith eto.
- I mi roedd yr achos hwn wedi troi sefyllfa oedd yn eithaf trist i'r bachgen i un fwy hapus a phositif trwy roi swydd bendant iddo a chanmoliaeth.

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad:2/10/19
Manylion y wers: Gweithgareddau cymysg ynglyn ag ailgylchu
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) - Plant yn hapus ar y cyfan, hynod o dda yn gweithio'n annibynnol. - Rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio ar ei thasgau penodol ond am un unigolyn.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) - Roedd pwrpas y wers yn glir, cyflwynodd yr athrawes weithgareddau'r dydd yn ystod y sesiwn gyntaf. 5 gweithgaredd gwahanol; 2 grŵp yn gwneud tasg ffocws gydag oedolyn a 3 grŵp yn gweithio'n annibynnol. - Fe wnaeth yr athrawes cwestiynu'r plant gan adeiladu ar eu gwybodaeth a phrofiad blaenorol gan adlewyrchu wrth iddynt gyflawni'r dasg maent yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus. Roedd y cyd-destun yn un dilys oherwydd hyn.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Plant yn glir beth maent fod ei wneud, fe wnes i gwestiynu nhw; Beth ydych chi'n gwneud? Sut ydych chi fod cwblhau'r dasg? - Maent yn adnabod beth oedd angen iddynt wneud er mwyn i'r gwaith bod o safon dda.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) - Roedd cynllunio'r athrawes yn addas i'r plant. Roedd y plant yn ymwybodol beth oedd angen iddynt gyflawni. - Plant oedd yn dewis os maent eisiau gwneud gwaith heriol neu beidio. - Ar ôl i'r plant orffen ei waith a dangos i'r athrawes fe wnaeth hi roi her unigol iddynt er mwyn ymestyn ei gwaith.
Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

- Wrth esbonio'r dasg roedd yr athrawes yn cwestiynu'r plant.
- Roedd darn o waith disgybl wedi cael ei ddangos fel esiampï dda.
- Chwaraeodd y plant gem wir/ ddim yn wir gyda'r athrawes. Roedd hi'n dweud datgan am waith yr unigolyn ac roedd rhaid i'r plant feddwl os byddai'r unigolyn wedi ysgrifennu e neu beidio.
- Roedd y grŵp oedd yn gweithio gyda'r athrawes yn hunan asesu ei waith ar ôl iddynt orffen. Naill ai nhw neu'r athrawes oedd yn rhoi targed iddynt.
- Roedd yr athrawes wedyn yn ysgrifennu nodynnau bach ar dudalennau nesaf y llyfr i atgoffa'r disgybl am ei darged.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

- Roedd yr athrawes yn gweithio gyda grŵp o blant yn ysgrifennu'n annibynnol am fanteision ailgylchu.
- Roedd rhaid iddi stopio, sefyll a symud gan fod unigolyn ddim ar ei dasg benodol sef creu poster ailgylchu yn ei lyfr.
- Roedd y bachgen yn hapus ac yn brysur yn torri darnau o bapur a defnyddio tap selo i greu delwedd, doedd e ddim eisiau gwneud y dasg.
- Fe wnaeth yr athrawes canmoli greadigrwydd yr unigolyn yn gyntaf ac wedyn mynd ati i wahaniaethu'r dasg iddo er mwyn i'r bachgen eisiau ei gyflawni.
- Rhoddodd y dewis iddo gwneud y dasg ar y darn o bapur yr oedd yn creu'r ddelwedd ac nid yn ei lyfr.
- Ar ôl hyn roedd y bachgen yn hapus ac aeth i gyflawni'r dasg yn annibynnol
- Aeth yr athrawes nôl i weithio gyda'i grŵp.
- Pan orfennodd y bachgen y dasg aeth i ddangos yr athrawes oedd wedi canmoli ef trwy ddweud "Da iawn ti, rwy'ti wedi gweithio'n galed".

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 2/10/19

Manylion y wers:

Sesiwn carped byr er mwyn cyflwno'r gwaith

Diwylliant ar lawr dosbarth

(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

- Pawb yn gwrando'n astud ar y carped ar gyfarwyddiadau rhoddodd yr athrawes am weithgareddau'r sesiwn.
- Gwelais 2 bachgen oedd yn ffeindio hi'n anodd eistedd yn llonydd a chanolbwyntio.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

- Cwestiynodd yr athrawes y plant; pam mae angen ailgylchu? Roedd y cwestiynau yn sbardun i gyflwyno gweithgareddau'r sesiwn,
- Roedd pwrpas clir i'r wers- 5 grŵp yn gwneud gweithgareddau gwahanol ynglŷn ag ailgylchu.
- Roedd amcan pob gweithgaredd yn glir a defnyddiodd yr athrawes cwestiynau i'r plant gwybod beth oedd yn mynd i wneud ei waith i fod yn wych.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

- Y plant oedd yn rhoi syniadau sut i wneud y gwaith yn dda.

Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

- 2 unigolyn yn ffeindio hi'n anodd canolbwyntio ar y carped er mwyn deall beth oeddent fod gwneud pan fydden nhw'n mynd ar dasg.

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

- Asesu gwaith ei gilydd ac yn trafod beth fydd yn gwneud gwaith gwyh; lliwio'n daclus, sillafu da, defnyddio atalnod llawn.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

- Athrawes yn cyflawni'r gofrestr ac wedyn yn trafod gyda'r plant ar y carped beth oedd gweithgareddau'r dydd.
- 2 fachgen yn ffeindio hi'n anodd eistedd yn smart, chanolbwyntio a pheidio chwarae. Rhoddodd yr athrawes her iddynt i eistedd mor ddistaw â llonydd a gallent wrth iddi wneud y gofrestr. Tra roedd hi'n esbonio'r gweithgareddau i'r plant roedd rhaid iddi stopio nifer o weithiau er mwyn disgyblu'r ddau fachgen.
- Defnyddiodd hi gardiau dangos pump, sibrwd, tynnu gwrthrych oddi arnyn nhw heb edrych arnyn nhw, gwenu arno er mwyn iddi gael e i ganolbwyntio.
- Rhoddodd hi roi 'blu tac' i'r bechgyn gan ei bod yn dechrau ffidlan gyda phethau o gwmpas nhw. Roedd rhaid iddi atgyfnerthu rheolau ffidlan gyda'r 'blu tac' er mwyn iddynt eistedd yn smart a chanolbwyntio'n well. Nifer o dechnegau amrywiol a gwahanol er mwyn rheoli disgyblaeth.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/9/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Gwahaniaethu gwaith i unigolyn

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	- Teimlaf yn drist wrth weld yr unigolyn methu ymwneud a'r dasg grŵp, enwedig wrth ystyried pwysigrwydd cyd weithio yn yr egwyddorion addysgeg. - Serch hynny roedd yr achos yn ddiddorol iawn gan ei bod yn adlewyrchu pwysigrwydd gwahaniaethu er mwyn i'r disgybl gallu cyflawni'r dasg. Roedd yn braf gweld y gwahaniaethu yma gan ei fod yn newid bach hawdd i'r athrawes gwneud ond roedd canlyniadau enfawr positif i'r disgybl. - Hapusrwydd oedd y teimlad ges i ar ôl i mi dystio'r disgybl cwblhau'r dasg yn unigol yn lle mewn grŵp. Mae'r unigolyn gydag ymholiad anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd ac felly'n ffeindio hi'n anodd iawn i weithio o fewn grŵp.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i> <i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>	- Mae gwahaniaethu'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod pob disgybl o fewn y dosbarth gyda mynediad i dasgau gwaith. - Er oedd hi'n braf gweld yr unigolyn cwblhau'r dasg yn y diwedd ar ben ei hun, teimlaf ei bod wedi colli allan a'r datblygu sgiliau cyd-weithio sy'n holl bwysig o ran yr egwyddorion addysgeg.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i> <i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i>	Gwahaniaethu tasg os ydy unigolyn yn gweld hi'n anodd cwblhau.

	Gan fod ymholiad anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywio grwydd gyda'r unigolyn teimlaf yn drist a siomedig iddo gan nad oedd yn gallu cyd-weithio mewn ffordd effeithiol.
Casgliadau a chymau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	Tro nesaf efallai fe fydd yr unigolyn yn buddio wrth gael cynorthwyydd i eistedd gydag e. Fe fydd y cynorthwyydd yn medru helpu e allu cyd-weithio a pheidio colli ei thymher. Fe fydd gweithio fel pâr yn gallu fod o fudd i'r unigolyn enwedig os fydd hyn yn digwydd yn aml. Gyda llai o blant i weithio gyda fe all yr unigolyn datblygu sgiliau cyd weithio a dod i'r arfer o weithio a rhannu cyfrifoldebau ag eraill. Fe fydd cydweithio fel rhan o gêm neu gyfrifoldeb yn medru datblygu'r sgiliau yma hefyd gan ei bod yn wahanol i gyd weithio wrth gyflawni gwaith.
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/9/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Llesiant disgybl

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	- Teimlaf yn drist ac yn druenus wrth dystio'r achos yma. Gwelais y disgybl yn newid o flaen fy llygaid. Enciliodd yr unigolyn ac aeth yn dawel. - Ond newidiodd yr achos i fod yn bositif yn y diwedd a theimlais yn hapus iawn wrth weld yr unigolyn yn dangos balchder a hapusrwydd wrth dderbyn canmoliaeth.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i> <i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>	- Roedd y dasg o edrych ar ôl Mac yn un ac oedd wedi datblygu nifer o sgiliau i'r unigolyn. Rhoddodd yr athrawes swydd personol er mwyn iddo ddysgu'n annibynnol am sut i edrych ar ôl teganau. Nid oedd yr unigolyn yn adnabod hyn fel tasg ac oedd yn mynd i ddatblygu'r sgiliau yma. Yn lle gwelodd fel cyfrifoldeb roedd e lan i'r unigolyn sut oedd yn mynd i gymryd at y gyfrifoldeb hwn. - Yr elfen fwyaf siomedig wrth i mi dystio hyn oedd teimlad o sioc bod plentyn ym Mlwyddyn 2 methu ymdrin â theganau a gwrthrychau mewn ffordd gywir a parchus.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i> <i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i>	- Defnyddio tasg neu cyfrifoldeb er mwyn hyrwyddo datblygiad sgililau ac ymwybyddiaeth os mae ymddygiad penodol yn fy mhryderi i. - Roedd i weld fel nid oedd yr unigolyn yn adnabod sut oedd y ffordd gywir - a orau i ymdrin a'r teganau.

Casgliadau a champau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	• Teimlaf bydd yr unigolyn yn buddio wrth gael sgwrs i atgyfnerthu sut a pham mae angen edrych ar ôl teganau a gwrthrychau'r dosbarth. • Roedd y cyfrifoldeb o edrych ar ôl Mac wedi gwneud newid mawr yn yr unigolyn gan ei bod yn feddiannol o'r tedi. Fe fydd rhoi mwy o gyfrifoldebau i'r unigolyn o fewn y dosbarth a thu allan yn sicr o ddatblygu dealltwriaeth sut a pham mae angen edrych ar ôl a pharchu teganau a gwrthrychau addysgiadol.
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 2/10/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Gwahaniaethu tasg i unigloyn

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	- Yn gyntaf teimlaf yn eithaf trist wrth dystio unigolyn anwybyddu ei waith enwedig wrth ystyried pwysigrwydd gweithio'n annibynnol yn ôl y pedwar diben. - Teimlaf yn hapus wrth arsylwi'r achos yma gan fod yr athrawes wedi gwahaniaethu'r dasg yn syth bin er mwyn i'r unigolyn eisiau a gallu cyflawni'r dasg. - Roedd yr achos yn ddiddorol iawn gan ei bod yn adlewyrchu pwysigrwydd gwahaniaethu er mwyn i'r disgybl gallu cyflawni'r dasg. Roedd yn braf gweld y gwahaniaethu yma gan ei fod yn newid bach hawdd i'r athrawes gwneud ond roedd canlyniadau enfawr positif i'r disgybl.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i> <i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>	- Roedd yr unigolyn yn hapus yn cwblhau'r dasg mewn ffordd y mae'n dysgu orau sef ffordd greadigol. - Wrth weld gwahaniaethu yn cael ei gyflawni ar unwaith, atgyfnerthodd hyn pwysigrwydd gwahaniaethu gwaith. Mae angen meddwl beth ydy'r datrysiad i broblem ynglŷn â gwahaniaethu yn sydyn iawn. - Roedd yn siomedig i dystio unigolyn oedd ddim ar dasg. Fodd bynnag roedd yr achos wedi troi'n bositif gan fod yr athrawes wedi gwahaniaethu'r gwaith er mwyn i'r bachgen cael mynediad i gwblhau'r dasg mewn ffordd roedd e'n ei mwynhau a dysgu orau.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i> <i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i>	- Yr angen i fod yn ymwybodol beth mae pob disgybl yn ei gwneud. Ydyn nhw ar dasg neu ydyn nhw'n gwneud rhywbeth cwbl wahanol. Os nad ydynt ar dasg mae rhaid datrys y broblem yma'n fuan gan bwysleisio pam nad ydynt ar dasg. - Gweld unigolyn oedd ddim ar dasg gan nad oedd eisiau ei chwblhau.

Casgliadau a chatau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	• Credaf fe fydd y disgybl yma'n buddio i gwblhau proffil un tudalen, felly bydd difyrweithiau a chryfderau'r unigolyn yn cael ei adlewyrchu. • Fe fydd sgaffaldio'r gwaith i'r unigolyn hefyd yn elfen arall gall helpu. Creu proffil un tudalen i'r unigolyn ac i weddill disgyblion y dosbarth er mwyn dod i adnabod nhw'n well.
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 2/10/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Strategaethau rheoli ymddygiad

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> "What are your feelings regarding the experience?"	• Teimlaf yn drist wrth arsylwi'r unigolyn nad oedd yn gallu canolbwyntio ar yr athrawes wrth eistedd ar y carped. • Teimlaf fel hyn oherwydd roedd yr unigolyn yn colli allan a'r mewnbwn holl bwysig i weithgareddau a chwestiynau ynglŷn ar waith. • Er hyn teimlaf yn hapus gyda sut aeth yr athrawes i ddisgyblu'r unigolyn trwy ddefnyddio amryw o strategaethau disgyblu.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i> "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	• Teimlaf yn hyderus nawr i ddefnyddio'r strategaethau yma wrth i mi ddysgu gan fy mod wedi gweld nhw'n gweithio o flaen llaw. • Mae defnyddio nifer o strategaethau gwahanol i reoli ymddygiad yn bwysig iawn er mwyn peidio colli tymor a chreu awyrgylch negyddol o fewn y dosbarth. • Y ffaith bod yr unigolyn yn colli allan ar addysgu holl bwysig.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i> "What was the cause of the most important disappointing element?"	• Roedd y defnydd o'r amrywiaeth o strategaethau ymddygiad yn creu awyrgylch positif yn y dosbarth.

	Tystio faint o strategaethau ymddygiad oedd rhaid ei ddefnyddio er mwyn i'r unigolyn peidio ag amharu ar y mewnbwn.
Casgliadau a chymau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	- Parhau i ddefnyddio'r strategaethau ymddygiad, efallai bydd atgyfnerthu rheolau dosbarth yn helpu'r unigolyn cofio bod angen canolbwyntio. - Efallai fe fydd eistedd ar gadair yn fuddiol i'r unigolyn neu eistedd gyda chynorthwydd yn ystod mewnbwn a thrafodaethau ar y carped.
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	